Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 14eg, Mehefin, 2006 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Y Maer, Cyng Hugh Towns; Cyng Ros Bellamy, Cyng Edward Thomas, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy, Mr Des Davies, Swyddog Technegol. Mr Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Pam Steane Price

Cofnod 7/Mehefin/06 Penodi Cadeirydd

Cynigiwyd y Cyng Roy Davies gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cofnod 8/ Mehefin/06 Penodi Is-gadeirydd

Cynigiwyd y Cyng Fran Murphy gan y Cyng Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cofnod 9/Mehefin/ 06 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried:

E/13112 NEWID DEFNYDD I GYFLEUSTER PARCIO CEIR AR DIR ODDI AR ADEILADAU'R BANC (TU CEFN GWESTY'R CAWDOR)
Cytunwyd. Argymell y dylai parcio gael ei gyfyngu i'r rheini sy'n lletya yng Ngwesty'r Cawdor.
Y gwaith ar y dirwedd i gydymffurfio gyda materion cadwraeth.

E/13113 GWELLA AC ADNEWYDDU'R IS-ORSAF DRYDAN, TERAS ABATY.
Cytuno.

E/13140 ESTYNIAD DEULAWR YNG NGHEFN 4, HEOL Y GARREG LAS
Cytuno. Deunyddiau i gydweddu gyda'r rhai sydd yno

E/13186 ADEILAD RHESTREDIG. ESTYNIAD BACH AR Y LLAWR GWAELOD YNG NGHEFN YR EIDDO ER MWYN CANIATÁU MYNEDIAD I'R TŶ BACH SYDD Y TU ALLAN O'R TU FEWN I'R EIDDO YN CYNNWYS CAWOD AR GYFER PERTHNASAU SY'N YMWELD. SIX BELLS, 5, TERAS Y BANC.
Cytuno, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio gydag amodau adeilad rhestredig.

E/13187 LLETY PRESWYL UNIGOL ARFAETHEDIG AR Y LLAWR CYNTAF AC AIL, Y SIOP AR Y LLAWR GWAELOD I BARHAU, YN 68, HEOL RHOSMAEN.
Dim gwrthwynebiadau i gael llety unigol

E/13188 FFLAT YCHWANEGOL UWCHBEN FFLAT PRESENNOL AR Y LLAWR CYNTAF 99, HEOL RHOSMAEN.
Cytuno

E/13189 1, ANHEDDLE PRESWYL (BYNGALO) A PLOT AR GYFER GAREJ WRTH YMYL 13, HEOL RHOSMAEN
Cytuno. Awgrymu y dylid archwilio addasrwydd y tir – mae hen weithfeydd cloddio yn yr ardal.

E/13203 NEWID DEFNYDD : ANHEDDLE YN DDEINTYDDFA GAN GYNNWYS ESTYNIAD (UN LLAWR) FERNHILL, 25 HEOL NEWYDD.
Croesawyd Deintyddfa GIG. Mae yna bryderon ynghylch lle parcio.

E/13266 DATBLYGIAD PRESWYL ARFAETHEDIG. SAFLE WRTH YMYL TERAS THOMAS
Cytuno, yn amodol ar faterion parcio a'i fod yn cydweddu â'r amgylchedd lleol. Materion yn ymwneud ag addasrwydd y tir.

E/13268 DATBLYGIAD PRESWYL AR Y SAFLE SYDD AR HYN O BRYD YN CAEL EI DDEFNYDDIO FEL GAREJ I BARCIO CAR. TIR AR DDIWEDD TERAS TOMOS.
Cytuno. Materion yn ymwneud ag addasrwydd y tir.

E/13275 NEWID DEFNYDD O SIOP BAPURAU NEWYDD (A1) I ASIANT GWERTHU TAI. 68, HEOL RHOSMAEN.
Cytuno. Angen blaen siop traddodiadol gan ei fod mewn ardal gadwraeth.

E/13369 FFENEST BAE YN 34, HEOL NEWYDD.
Cytuno.

E/13368 CYNLLUNIO AMLINELLOL AR GYFER 2 ANHEDDLE NEWYDD WRTH YMYL 'RED COTTAGES' HEOL CAERFYRDDIN
Cytuno

E/13359 DYMCHWEL TŶ SYDD WEDI'I DDIFRODI GAN DÂN AC ADEILADU ANHEDDLE NEWYDD A GAREJ. PENROCK HOUSE, HEOL CAERFYRDDIN.
Cytuno a fe'i croesawyd.

Cofnod10/ Mehefin/ 06 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Cymeradwywyd y ceisiadau canlynol gan adran gynllunio'r Sir:-

E/11916 DIWYGIO CAIS E/10621 CYMERADWYWYD AR 1.12.05 – DIWYGIO UNED 2 : 3 ANHEDDLE YN Y CYN FAES PARCIO YN Y CEFN, MYNEDFA NEWYDD A THREFNIADAU FEL ALLANFA YN YR HEN YSTAFELLOEDD ARWERTHU, 21, HEOL NEWYDD.

E/12579 CAEL GWARED Â'R TO UN GOLEDDF, CREU TO Â GOLEDDF A MÂN NEWIDIADAU MEWNOL YN NEUADD Y SIR, STRYD CAERFYRDDIN.

E/12833 NEWID DEFNYDD O FOD YN SWYDDFEYDD I DDEINTYDDFA GYDA 2 DDEINTYDD UN AR Y LLAWR GWAELOD, AC UN ARALL AR Y LLAWR CYNTAF YN YR HEN GOLOMENDY, ODDI AR HEOL CILGANT.

Gwrthodwyd y cais canlynol gan adran gynllunio'r Cyngor:-

E/11918 ADDASU TŶ CERBYDAU YN LLETY AR GYFER STAFF, CEGIN A BWYTY AC ADEILADU DERBYNFA NEWYDD A THOILEDAU YN SALUTATION INN, HEOL NEWYDD.

E/12591 CAIS AMLINELLOL AR GYFER 2 ANHEDDLE (LEFEL MYNEDIAD) AR DIR WRTH YMYL 'RED COTTAGES', STRYD CAERFYRDDIN.

Cofnod 11/Mehefin/ 06 Apeliadau Ceisiadau Cynllunio

WARWS YN NHERAS TOMOS, HEOL YR ORSAF YN ERBYN RHYBUDD GORFODAETH A GYFLWYNWYD GAN CSC AM DORRI AMODAU CYNLLUNIO.

- Amod 1 – defnydd storio yn unig. Ymddengys i'r adran Gynllunio fod yr eiddo wedi'i ddefnyddio ar gyfer dibenion Arwerthu.

- Amod 2 – Defnydd eiddo. Ymddengys i'r Adran Gynllunio fod yr eiddo wedi'i ddefnyddio y tu allan i'r oriau y caniatawyd iddo.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu.

NEWID DEFNYDD YR ADEILAD A BLAEN GWRT O DDEFNYDD DOSBARTH B8 (STORIO A DOSBARTHU) I YSTAFELLOEDD ARWERTHU (CYF E/10121 GWRTHODWYD AR 6.7.05)
Mae'r Hawl i Apelio wedi'i ganiatáu

a) APÊL AR GYFER LLE STORIO YN Y LLEW GWYN, STRYD SIOR.
Apêl wedi'i ganiatáu.

Cofnod12 / Mehefin / 06 Trafnidiaeth

i) Rhybudd Gorchymyn Cyfyngiad Aros CSC
ii) Arafu cyflymder o amgylch Ysgol Ffair-fach
iii) Mesurau Arafu Traffig yn Llandeilo
Argymell y dylai'r Clerc ysgrifennu at Mr Andrew Davies LlCC, gyda chopïau at Rhodri Glyn Thomas AC, a Chyngor Bro Dyffryn Cennen.
iv) Cyfarfod ar y cyd gyda Chyngor Bro Dyffryn Cennen
Argymell y dylai'r Clerc ysgrifennu at Mr Arwyn Evans er mwyn manteisio ar eu cynnig o gael cyfarfod ar y cyd i drafod materion mewn perthynas â'r Ffordd Osgoi arfaethedig
v) Taliadau Parcio Ceir.
Argymell y dylai'r Clerc drefnu cyfarfod arall ar y cyd gyda Chynghorau Tref Llanymddyfri, Castell Newydd Emlyn a Rhydaman.

Cofnod 13/ Mehefin/ 06 Adroddiad Llwybrau Troed.

i) Gohebiaeth oddi wrth Caroline Ferguson yn nodi bod y sticillau a osodwyd mewn camgymeriad ar hyd lwybr troed 69/1 wedi'u tynnu oddi yno.
ii) Agorwyd y Tendrau ar gyfer Cynnal a Chadw Llwybrau Troed ar y 30ain Mai am 5.15pm :-
Jonathan Field - £ 810 + TAW
Hugh Gwynne - £700 + TAW
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid rhoi'r cytundeb i'r tendr isaf. Roedd pawb o blaid.

Cofnod 14 /Mehefin/ 06 Gohebiaeth

1. CSC – Tynnu coed o barc Dinefwr. **Cytuno.**

2. Llythyr oddi wrth Mr Mathews yn beirniadu'r Placiau Treftadaeth. Bydd y Cyng Ros Bellamy yn ateb.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 p.m.